**Rhif:** WG38353

Llywodraeth Cymru
Dogfen ymgynghori

# Ymestyn y cylch arolygu ysgolion

**Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020**

Dyddiad cyhoeddi: 14 Hydref 2019
Gweithredu: Ymatebion erbyn 25 Tachwedd 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y goron

# Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â’r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar Reoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â’r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020.

**Sut i ymateb**

Dylech anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost/post i'r cyfeiriad isod erbyn **25 Tachwedd 2019** fan bellaf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau perthnasol**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Arolygiaeth Dysgu - Adolygiad annibynnol o Estyn
https://www.estyn.llyw.cymru/dogfen/arolygiaeth-dysgu-adolygiad-annibynnol-o-estyn

Ymgynghoriad ar flwyddyn bontio arfaethedig Estyn yn 2020-2021
https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/Consultation%20PDF%20Cymraeg.pdf

Ymatebion i’r ymgynghoriad ar flwyddyn bontio arfaethedig Estyn yn 2020–2021 (blwyddyn academaidd)
https://www.estyn.llyw.cymru/dogfen/ymatebion-i%E2%80%99r-ymgynghoriad-ar-flwyddyn-bontio-arfaethedig-estyn-yn-2020%E2%80%932021-blwyddyn

Mae’r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgynghoriadau.

Rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Addysg, Cynllunio Busnes a Llywodraethiant
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Addysg-CynllunioBusnesaLlywodraethiant@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu’r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy’n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion cyn cyhoeddi’ch ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i’w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu’r data
- (o dan rai amgylchiadau) i’ch data gael eu ‘dileu’
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawl o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer / Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Pwrpas yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar Reoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau drafft"). Mae'r rheoliadau hyn yn ymestyn y cyfnod arolygu presennol ar gyfer addysg feithrin, ysgolion a gynhelir (gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion ac addysg grefyddol a ddarperir mewn ysgolion a gynhelir), y gwasanaeth gyrfaoedd a gwasanaethau cysylltiedig, a sefydliadau addysg bellach, o 7 i 8 mlynedd am un cylch yn unig (2016-2024). Atodir copi o'r Rheoliadau ddrafft.

## Y sefyllfa bresennol

Mae'r Rheoliadau drafft yn diwygio'r Rheoliadau canlynol ("y Rheoliadau Arolygu"):

(a) Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001 (arolygu addysg bellach);
(b) Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006 (arolygu ysgolion a gynhelir, Unedau Cyfeirio Disgyblion ac addysg grefyddol mewn ysgolion a gynhelir);
(c) Rheoliadau Arolygu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006 (arolygu'r gwasanaeth gyrfaoedd a gwasanaethau cysylltiedig); a
(d) Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 2015 (arolygu addysg feithrin).

Ar hyn o bryd, mae'r Rheoliadau Arolygu yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant gynnal arolygiad o leiaf unwaith yn y cyfnod 7 mlynedd sy'n dechrau ar 1 Medi 2016 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2023 ("y Cyfnod Arolygu Cyntaf") ac o leiaf unwaith ym mhob cyfnod arolygu 6 mlynedd dilynol.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio'r Cyfnod Arolygu Cyntaf ym mhob un o'r Rheoliadau Arolygu fel bod y cyfnod hwnnw'n dod i ben ar 31 Awst 2024 yn lle 31 Awst 2023. Bydd pob arolygiad dilynol yn parhau i gael ei gynnal unwaith ym mhob cyfnod arolygu o 6 mlynedd.

## Pam yr ydym yn cynnig newid

Cynhaliodd yr Athro Graham Donaldson adolygiad annibynnol o oblygiadau ein diwygiadau ym maes addysg i rôl Estyn yn y dyfodol. Mae ei adroddiad 'Arolygiaeth Dysgu', a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, yn cynnwys argymhellion sy'n galluogi Estyn ac arolygiadau ysgolion gyfrannu'n uniongyrchol at y diwygiadau parhaus i'r cwricwlwm a'r trefniadau newydd ar gyfer gwerthuso a gwella. Mae'r adroddiad hwn yn nodi sut y gallai'r Arolygiaeth ac arolygiadau ysgolion weithio yn y dyfodol.

Cynigir yn yr adroddiad ddull gweithredu tair cam ar gyfer trosglwyddo o'r trefniadau arolygu presennol i'r trefniadau arolygu newydd er mwyn cyd-fynd â'r diwygiadau addysg. Mae nifer o'r argymhellion yn yr adroddiad yn cefnogi'r newidiadau sydd eu hangen yn ystod y cyfnod trosglwyddo. Mae Cam 1 o'r cyfnod trosglwyddo'n cynnwys cynnig i atal arolygiadau ysgolion yn rhannol er mwyn rhoi amser i ysgolion ganolbwyntio ar gyflwyno'r newidiadau y mae angen iddynt eu gwneud yn unol â'r diwygiadau i'r cwricwlwm. Mae hefyd yn rhoi amser i Estyn helpu ysgolion i baratoi ar gyfer y newidiadau ac yn galluogi arolygwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'r broses ddiwygio, addasu eu harferion a sicrhau bod y trefniadau arolygu ar gyfer y dyfodol yn addas i'r diben. Er y cynigir atal arolygiadau ysgolion yn rhannol, byddai gweithgarwch digonol yn parhau yn y cyfnod hwn o ran arolygu ysgolion a monitro'r rheini sy'n peri pryder.

Ar 19 Chwefror 2019, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ei bod yn hapus i Estyn symud ymlaen i weithredu argymhellion yr adroddiad drwy gyfnod o ymgynghori â rhanddeiliaid. Dywedodd y Gweinidog Addysg hefyd y byddai Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar ymestyn y cylch arolygu presennol o 7 i 8 mlynedd er mwyn atal yn rhannol yr arolygiadau ysgolion y bwriadwyd eu cynnal yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021. Atodir isod ddolen i ddatganiad ysgrifenedig y Gweinidog:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-gwerthuso-gwella-system-atebolrwydd-newydd-i-godi-safonau-i-bawb

Ym mis Mai 2019, cynhaliodd Estyn y cyntaf mewn cyfres o ymgynghoriadau ar y ffordd orau y gall arolygu gynorthwyo ysgolion a darparwyr eraill i reoli'r newidiadau sy'n digwydd ym myd addysg. Roedd yr ymgynghoriad cyntaf yn canolbwyntio ar y cynigion yn ystod blwyddyn bontio 2020-2021. Gwahoddwyd sylwadau gan randdeiliaid ar y materion canlynol:

- Y cynnig i Estyn atal yn rhannol arolygiadau ar gyfer ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021 er mwyn i arolygwyr allu cefnogi'r cwricwlwm;
- Y gweithgarwch y bydd Estyn yn ei wneud yn ystod y flwyddyn honno ar ffurf ymweliadau ymgysylltu ac ar beth fydd yr ymweliadau'n canolbwyntio;
- Gweithgareddau eraill yn ystod 2020-2021, gan gynnwys gweithgareddau i gefnogi ysgolion sy'n peri pryder;
- Cynigion ar gyfer rhoi gwybod i randdeiliaid am ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn drosglwyddo.

Gellir gweld canlyniad yr ymgynghoriad yn y ddolen ganlynol:

https://www.estyn.llyw.cymru/dogfen/ymatebion-i%E2%80%99r-ymgynghoriad-ar-flwyddyn-bontio-arfaethedig-estyn-yn-2020%E2%80%932021-blwyddyn

Mewn perthynas â'r cwestiwn ynghylch a ddylai Estyn atal yn rhannol arolygiadau ar gyfer ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn ystod 2020-2021, gwnaeth 89% o'r ymatebwyr gytuno neu gytuno'n gryf â'r cynnig, tra bod 7% yn anghytuno neu anghytuno'n gryf. O ganlyniad i hyn, bydd Estyn yn atal arolygiadau ysgolion yn rhannol fel y bwriadwyd.

Fel y soniwyd yn natganiad ysgrifenedig y Gweinidog Addysg ar 19 Chwefror, er mwyn atal yr arolygiadau'n rhannol byddai angen i'r cylch arolygu presennol gael ei ymestyn o 7 i 8 mlynedd am un cylch yn unig. Byddai hyn yn caniatáu i Estyn barhau â'i raglen arfaethedig o arolygiadau dros gyfnod hirach ac yn rhoi amser i ysgolion ac Estyn gwblhau'r gwaith datblygu sydd angen ei wneud er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd a'r system arolygu newydd. Mae'r Rheoliadau drafft yn caniatáu i hyn ddigwydd drwy ymestyn y cyfnod arolygu 7 mlynedd presennol (2016-2023) i 8 mlynedd (2016-2024) am un cylch yn unig, a dychwelyd i gylch 6 mlynedd wedi hynny.

Er y rhagwelir y bydd Estyn ond yn atal arolygiadau'n rhannol ar gyfer ysgolion meithrin a gynhelir, ysgolion a gynhelir ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn ystod 2020-21, mae'r Rheoliadau drafft yn rhoi hyblygrwydd i Estyn atal arolygiadau mewn lleoliadau eraill a ragnodir yn y rheoliadau arolygu presennol (pob lleoliad meithrin, y gwasanaeth gyrfaoedd a gwasanaethau cysylltiedig a lleoliadau addysg bellach) os bernir bod angen gwneud hynny. Mae hefyd yn caniatáu i bob lleoliad aros ar yr un cylch arolygu yn ystod y cyfnod presennol ac wedi hynny. Er na fydd y rheoliadau'n rhagnodi'r cyfnod penodol y bydd Estyn yn

cychwyn atal arolygiadau'n rhannol, cytunwyd y byddai hyn yn digwydd yn 2020-2021 ac y byddai'n cael ei adlewyrchu yn llythyr cylch gorchwyl 2020-21 Estyn.

## Beth yr ydym yn ei gynnig

Bod rhanddeiliaid yn cytuno i Reoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â’r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020 a fydd yn dod i rym ar 1 Medi 2020 er mwyn atal arolygiadau ysgolion yn rhannol yn ystod 2020-2021.